# CYNGOR

## COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 6ED MAWRTH 2018 AM 5.00 PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M.Adams - Dirprwy Faer - Yn Llywyddu

Cynghorwyr:

C. Andrews, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, K. Dawson, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, J.E. Fussell, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, M. James, G. Johnston, S. Kent, C.P. Mann, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, Mrs M.E. Sargent, J. Scriven, J. Simmonds S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, A. Whitcombe, R. Whiting, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro ), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol, D. Marr (Dirprwy Swyddog Monitro, Cyngor Caerdydd), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol), L. Lane (Cyfreithiwr Corfforaethol), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol) ac R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

Hefyd yn Bresennol:

P. Diamond (Arweinydd Thema - Tîm Partneriaeth Ranbarthol)

### 1. TREFNIADAU FFILMIO GWE-GAMERA A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy godi dwylo.

### 2. CYDNABOD STAFF Y CYNGOR - AMODAU TYWYDD EITHAFOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro gyflwyniad i'r Aelodau a oedd yn amlinellu eithafion yr amodau tywydd diweddar ar draws y fwrdeistref sirol yn deillio o'r eira mwyaf trwm ers blynyddoedd lawer, ac a arweiniodd at weithredu ymateb cynllunio brys y Cyngor.

Hysbyswyd yr Aelodau am y nifer o achosion lle roedd staff y Cyngor wedi mynd y filltir ychwanegol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu darparu ar draws cymunedau yn ystod y tywydd heriol. Cyfeiriwyd yn benodol at waith y criwiau graeanu, gofalyddion, timau ysbwriel a chynnal a chadw tir, y tîm tai, rheoli cyfleusterau, staff ystafell reoli TCC, cofrestryddion a staff polisi, staff Cefn Gwlad, plymwyr y cyngor, staff priffyrdd, staff Meals Direct, y tîm Gofal Dydd Brys, a'r tîm Cyfathrebu. Canmolodd y Prif Weithredwr Dros Dro ymdrech y tîm a fu'n amlwg dros y dyddiau diwethaf a thalodd deyrnged i ymroddiad staff wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn er gwaethaf yr amgylchiadau heriol a diffyg adnoddau .

Roedd croestoriad o staff o bob rhan o'r meysydd allweddol hyn yn bresennol yn y Cyngor er mwyn cydnabod eu hymdrechion. Rhoddodd yr aelodau gymeradwyaeth ar eu traed a chynig sylwadau unigol a diolch i'r staff oedd yn bresennol fel arwydd o'u gwerthfawrogiad.

Yn dilyn cydnabyddiaeth gan y Cyngor, gwahoddwyd y staff i gael llun tîm gyda'r Dirprwy Faer a'r Dirprwy Arweinydd a chynhaliwyd toriad byr tra roedd hyn yn cael ei wneud.

## 3. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs EM Aldworth, J. Bevan (Maer), N. Dix, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, DT Hardacre, V. James, L. Jeremiah, Mrs B. Jones, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, Mrs P. Marsden, Mrs L. Phipps, R. Saralis, G. Simmonds, C. Thomas a L.G. Whittle.

## 4. CYHOEDDIADAU'R MAER

Cyfeiriodd y Dirprwy Faer at y nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd ar draws y fwrdeistref sirol ers y cyfarfod diwethaf, a hysbysodd yr Aelodau ei fod wedi cael y pleser yn ddiweddar o fynychu Cyngerdd Drift Rorke flynyddol yn Theatr Aberhonddu, yn ogystal ag agor y Ganolfan Weledigaeth yn Eglwys y Tabernacl Trecelyn. Yn ddiweddar, mynychodd y Dirprwy Faer hefyd ddadorchuddio plac gwyrdd yn Nheras Waterloo i goffáu gwaith y llawfeddyg arloesol a'r trigolyn lleol, Dr William Price, a dilynwyd y dadorchuddio gan seremoni yn Neuadd Plwyf Rhydri.

## 5. CYFLWYNO GWOBRAU

Nid oedd unrhyw wobrau i'w cyflwyno ar yr achlysur hwn.

## 6. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau'r cyfarfod. Yn ystod y cyfarfod, derbyniwyd nifer o ddatganiadau gan Aelodau a Swyddogion mewn perthynas ag Eitem 9 ar yr Agenda (Cyhoeddi Datganiad Polisi Tâl - Deddf Lleoliaeth 2011) ac fe'u nodir gyda'r eitem briodol

## 7. Y CYNGOR – 23AIN IONAWR 2018

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Y Cyngor a gynhaliwyd ar 23ain Ionawr 2018 (rhifau cofnodion 1-13).

**ADRODDIADAU A GYFEIRIWYD O'R CABINET**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad canlynol a gyfeiriwyd o'r Cabinet.

## 8. DIWYGIADAU I AWDURDODI SWYDDOGION YN YR ADRAN DIOGELU'R CYHOEDD

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 31ain Ionawr 2018, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i swyddogion yr Adran Diogelwch y Cyhoedd, yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor i gynnwys Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a cheisio awdurdodiad ychwanegol i Swyddogion o dan y Ddeddf uchod er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.

Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â nifer o bryderon iechyd y cyhoedd penodol, ac i greu amodau cymdeithasol sy'n ffafriol i iechyd da a lle gellir atal niwed y gellir eu hosgoi. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gordewdra, cynhyrchion tybaco a nicotin, gweithdrefnau arbennig (aciwbigo, tyllu corff, electrolysis, tatŵio), tyllu personol, asesiadau o effaith ar iechyd, gwasanaethau fferyllol, a thoiledau ar gyfer y cyhoedd. Mae yna ddyddiadau cychwyn ar gyfer y Rhannau gwahanol o'r Ddeddf a fydd yn cael eu gorfodi / eu gweithredu gan amrywiaeth o sefydliadau. Mae Rhannau'r Ddeddf sy'n gyfrifoldeb gorfodi yr awdurdod lleol yn cynnwys Rhan 5 (Tyllu Personol), Rhan 4 (Gweithdrefnau Arbennig) a Rhan 3 (Cynhyrchion Tybaco a Nicotin).

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog bod:-

(i) gweithredu'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei gymeradwyo;

(ii) Cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Cyngor yn cael eu diwygio drwy ychwanegu Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 a bod Swyddog Monitro'r Cyngor yn cael ei awdurdodi i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor;

(iii) Swyddogion o fewn Adran Diogelwch y Cyhoedd yn cael eu hawdurdodi o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.

**ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

## 9. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CAERFFILI - CYNLLUN LLESIANT 2018-2023

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn rhoi manylion Cynllun Llesiant drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili ar gyfer yr ardal; 'Y Gaerffili a Garem 2018-2023', a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cyngor i'r Cynllun o dan Adran 43 (5) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Cynllun Llesiant drafft ar gyfer yr ardal wedi'i ddatblygu drwy weithgarwch partneriaeth ar y cyd a gychwynodd pan ddaeth y Ddeddf i rym ar 1af Ebrill 2016. Mae'r Cynllun wedi ei seilio ar yr asesiad lleol o les ar gyfer yr ardal a chafodd ei hysbysu gan ymgynghoriad rhanddeiliaid a chymunedol helaeth. Rhaid i'r cynllun gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi gan bartneriaid statudol y Bwrdd (yr awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru) o fewn blwyddyn i etholiad llywodraeth leol. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth partner statudol, bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili yn cadarnhau'r Cynllun yn ei gyfarfod ar 13eg Mawrth

2018.

Mae'r Cynllun drafft (ynghlwm wrth yr adroddiad) yn cynnwys 4 amcan lefel uchel ac mae'n cynnwys cynllun cyflenwi sy'n gosod meysydd ar gyfer gweithgarwch cydweithredol o dan 4 Galluogydd a 5 Cam Gweithredu a fydd gyda'i gilydd yn arwain yr amcanion hyn. O dan y Cynllun Cyflenwi, bydd y grwpiau o staff ac adnoddau y mae aelodau'r Bwrdd unigol yn dymuno eu cyflwyno i'r nodau cyflawni, ac mae'r Bwrdd hefyd wedi cytuno ar y sefydliad arweiniol ar gyfer pob agwedd o'r cynllun. O fewn pob Ardal Weithredu a Galluogydd, mae grwpiau o staff, aelodau'r gymuned a'r sector breifat a'r trydydd sector wedi dechrau cael eu henwi. Bydd gan bob thema swyddog arweiniol a disgwylir iddo/iddi osod rhaglenni o weithgareddau yn ystod y cynllun. Mae'r cynlluniau gweithredu hyn yn cael eu datblygu'n fanylach ar hyn o bryd a byddant ar waith mewn pryd i ddechrau cyflwyno erbyn y dyddiad cau statudol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, gofynnwyd am eglurhad ynghylch sut y byddai'r sefydliadau partner sy'n rhan o'r Cynllun Llesiant yn cysylltu â'i gilydd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Esboniodd swyddogion fod cynllunio strategol ar y gweill i ganiatáu i'r sefydliadau hyn gydweithio i wella a chyd-fynd â'i gilydd, tra'n osgoi dyblygu gweithgareddau. Nodwyd bod y Cynllun Llesiant drafft hefyd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 20fed Chwefror 2018 a chyfarfod cynharach y pwyllgor ar 14eg Medi 2017. Yn deillio o'r sylwadau a dderbyniwyd gan y pwyllgor hwnnw, cafodd yr amcan Lleoedd Cadarnhaol ei ddiwygio i adlewyrchu'r angen am dai cynaliadwy a fforddiadwy.

Cyfeiriwyd at y gyfradd ymateb isel i'r arolwg ar-lein a ddefnyddiwyd i gofnodi ymatebion i'r Cynllun Drafft, a esboniodd y Swyddogion y gallai hyn fod o ganlyniad i natur benodol yr ymgynghoriad a hefyd oherwydd bod yr arolwg yn cael ei gynnal yn ychwanegol at ddigwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb ac fe'i dyluniwyd i gasglu barn trigolion lleol a/neu sefydliadau nad oeddent yn gallu mynychu un o'r digwyddiadau hyn. Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â dyraniad y gyllideb ar gyfer y Maes Gweithredu Prentisiaethau (y cafodd Cyngor Caerffili ei nodi fel y prif sefydliad), eglurwyd y byddai hyn yn dod o dan thema hyfforddiant rhanbarthol fel rhan o'r Cytundeb Dinesig. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai rhagor o wybodaeth am brentisiaethau yn cael ei chynnwys yng Nghynllun Busnes y Cytundeb Dinesig a gyflwynir i'r Cyngor Arbennig ar 28ain Mawrth 2018.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog bod:-

(i) cynnwys Cynllun Llesiant drafft terfynol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili yn cael ei nodi;

(ii) Cynllun Llesiant drafft terfynol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili yn cael ei gymeradwyo i ganiatáu symud ymlaen i'r cyhoeddiad terfynol cyn 3ydd Mai 2018.

## 10. CYNLLUN ARDAL RHANBARTHOL DRAFFT

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad, a oedd yn manylu ar y Cynllun Ardal Rhanbarthol drafft sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (2014) ac yn nodi sut mae'n ategu'r Cynllun Llesiant sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Hysbyswyd yr aelodau, ar ôl cyhoeddi Asesiad o Anghenion y Boblogaeth y rhanbarth, mae Cynllun Ardal drafft bellach wedi'i ddatblygu ar y cyd ar draws y rhanbarth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r Tîm Partneriaeth Ranbarthol.

Roedd Mr Phillip Diamond (Arweinydd Thema - Tîm Partneriaeth Ranbarthol) yn bresennol yn y Cyngor i gyflwyno'r Cynllun drafft ac i ymateb i gwestiynau ar ei gynnwys. Eglurodd fod y Cynllun Ardal drafft yn nodi'r camau gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a byddant yn cyd-fynd yn agos a rhannu blaenoriaethau

tebyg i Gynllun Llesiant Caerffili.  Eglurwyd y dylai'r Cynllun Ardal drafft gael ei ddarllen orau fel drafft gweithredol gan fod nifer o fanylion i'w hychwanegu fel y proffil Cyllid Gofal Integredig.  Nodwyd y bydd angen cynhyrchu adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ardal unwaith y bydd wedi'i gyhoeddi er mwyn dangos bod cynnydd wedi'i wneud.

Hysbyswyd yr aelodau bod y Cynllun Ardal drafft yn gosod pwyslais ar gyd-flaenoriaethau a chydweithio ar draws y pum awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol.  Rhaid cyhoeddi'r cynlluniau ardal gyntaf erbyn 1af Ebrill 2018 a bydd angen sicrhau cysylltiadau rhwng y Cynllun Ardal a Chynlluniau Llesiant yr awdurdod lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.Gellir ennill synergeddau a gellir osgoi dyblygu drwy gysylltu'r cynlluniau, ac mae swyddogion lleol wedi bod yn gweithio'n agos i nodi meysydd synergedd a chydweithio. Eglurodd Mr Diamond y bydd y Cynllun Ardal drafft yn nodi'r camau gweithredu ar wahân i'w cymryd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal â'r camau gweithredu ar y cyd i'w symud ymlaen er mwyn osgoi dyblygu, gwneud y gorau o'r adnoddau a gwneud defnydd effeithiol o weithio mewn partneriaeth.

Wrth ymateb i ymholiadau a dderbyniwyd yn ystod y ddadl, amlinellodd y Swyddogion y meysydd gweithio lluosog sydd ar y gweill er mwyn datblygu aliniad y cynlluniau Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ym mhob ardal clwstwr meddygon teulu, ac esboniodd sut y bwriedir i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol rannu adroddiadau gydag awdurdodau lleol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Ardal drafft.  Crynhowodd y swyddogion yr ymgysylltu cynhwysfawr a wnaed hyd yn hyn ac eglurodd y bydd hyblygrwydd ynghylch dulliau ymgysylltu yn y dyfodol, gyda chyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn nodi sut y bydd dinasyddion yn rhan o'r Cynllun Ardal.  Rhoddodd y Swyddogion sicrwydd hefyd fod cynnydd da parhaus yn cael ei wneud o ran alinio'r Cynllun Ardal a Chynlluniau Llesiant unigol, a dywedwyd wrth yr Aelodau y bydd angen adrodd ar gynnydd y Cynllun Ardal yn flynyddol.

Cafwyd ymholiad ynglŷn â'r dyddiadau cwblhau disgwyliedig ar gyfer Strategaethau Rhanbarthol Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl.  Cadarnhawyd bod y Strategaeth Ranbarthol Anableddau Dysgu bron â'i chwblhau, er bod y gwaith yn parhau ar y Strategaeth Ranbarthol Iechyd Meddwl, a bydd cyfle i'r Aelodau roi eu barn ar y ddwy ddogfen unwaith y bydd y rhain wedi'u cwblhau.  Nodwyd hefyd bod y Cynllun Ardal drafft wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant ar 6ed Chwefror 2018, lle cafodd nifer o sylwadau eu derbyn a byddant yn cael eu cynnwys yn y Cynllun Ardal terfynol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth ac wrth nodi ei gynnwys, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo.  Yn deillio o'r cyfeiriad yn yr adroddiad ar gyfer sefydlu cronfeydd cyfun mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, symudwyd ac eiliwyd argymhelliad ychwanegol hefyd, gan y byddai adroddiad ar wahân ar gronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet maes o law.  Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog bod:-

(i) aliniad y Cynllun Ardal Drafft a Chynllun Lles Caerffili yn cael ei nodi;

(ii) adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet mewn perthynas â chronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal preswyl i bobl hŷn.

## 11. CYHOEDDI DATGANIAD POLISI TÂL - DEDDF LLEOLIAETH 2011

Ar ôl ceisio cyngor gan y Dirprwy Swyddog Monitro (Caerdydd), datganodd y Cynghorydd C. Bezzina ddiddordeb personol a rhagfarnol (fel gweithiwr undeb llafur) a gadawodd y Siambr wrth i'r eitem hon yn cael ei hystyried.

Gofynnodd nifer o Aelodau am eglurhad ynghylch a oedd yn ofynnol iddynt ddatgan diddordeb gan fod ganddynt aelodau o'r teulu a gyflogir gan y Cyngor.  Cadarnhaodd y

Dirprwy Swyddog Monitro (Caerdydd) nad oedd unrhyw ofyniad i Aelodau ddatgan diddordeb rhagfarnol a gadael y cyfarfod ar y sail honno, ond y gellid datgan eu diddordeb personol ar y mater hwn oherwydd natur yr adroddiad.

Datganodd y Cynghorwyr C. Andrews, D. Davies, M. Davies, K. Etheridge, M. Evans, D.T. Hardacre, D.W.R. Preece, D.V. Poole a W. Williams ddiddordeb personol gan fod ganddynt aelod o'r teulu a gyflogir gan yr Awdurdod.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a ddylai uwch swyddogion sy'n bresennol hefyd ddatgan diddordeb, oherwydd natur yr adroddiad. Yn dilyn cyngor gan y Dirprwy Swyddog Monitro (Caerdydd), datganodd C. Harrhy, D. Street, M.S. Williams, L. Donovan, a L. Lane ddiddordeb personol ac arhoson yn y cyfarfod wrth i'r eitem yn cael ei hystyried.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan y Cyngor ar gyfer cyhoeddi Polisi Tâl yr Awdurdod. Hysbyswyd yr Aelodau bod Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a chyhoeddi eu Polisi Tâl. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd o Dâl Prif Swyddogion (gan gynnwys rhoi'r gorau i swydd), a hefyd mewn perthynas â'r rhai syn cael y "tâl isaf" yn y Cyngor, gan esbonio eu Polisi am y berthynas rhwng tâl ar gyfer Prif Swyddogion a grwpiau eraill.

Mae'r Datganiad Polisi Tâl sydd ynghlwm wrth yr adroddiad yn cynnwys manylion llawn y sefyllfa tâl ar gyfer y Cyngor y mae'n ofynnol iddo gyhoeddi o dan y ddeddfwriaeth. Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad deddfwriaethol i'r Polisi Tâl gael ei gyhoeddi bob blwyddyn cyn 31ain Mawrth a bod y Datganiad Polisi Tâl a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad yn ddatganiad o ffaith.

Yn ystod y ddadl, ymatebodd swyddogion i ymholiad mewn perthynas â'r hawl i wyliau blynyddol a ddiogelir i nifer o Swyddogion a chadarnhaodd fod y mater yn cael ei ddatblygu.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Trwy godi dwylo (ac wrth nodi bod 16 yn erbyn), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, i gymeradwyo a chyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl (Fersiwn 7) ar wefan y Cyngor .

**12. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD DAN REOLIAD GWEITHDREFN 10(2)**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cwestiynau canlynol dan Reol Gweithdrefn 10(2). Yn unol â'r diwygiadau i'r cyfansoddiad, mae'r ateb hefyd yn cael ei nodi.

**(i) ASBESTOS YN SWYDDFEYDD CYNGOR PONTLLANFRAITH**

At sylw'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Gymdogaeth gan y Cynghorydd G. Simmonds.

I ofyn y canlynol i'r Aelodau Cabinet:

1. A yw Cyngor Caerffili yn bwriadu sefydlu cynllun iawndal i ymdrin ag unrhyw hawliadau'n ymwneud ag iawndal asbestos yn deillio o'r cyfaddefiad bod swyddfeydd Cyngor Pontllanfraith "yn llawn asbestos"? Adeiladwyd yr adeilad ym 1972 felly nid yw effeithiau o ganlyniad i weithio am dros ddeugain mlynedd mewn amgylchedd gwaith sy'n llawn asbestos tu hwnt i amgyffred.

2. A yw Cyngor Caerffili yn bwriadu sefydlu rhaglen sgrinio i weithwyr cyflogedig a fu'n gweithio yn swyddfeydd cyngor Pontllanfraith?

3. Pa bryd daeth Cyngor Caerffili'n ymwybodol bod Swyddfeydd Cyngor Pontllanfraith yn llawn asbestos, rhestrwch pa mor aml y cynhaliwyd profion ar swyddfeydd Pontllanfraith os gwelwch yn dda?

4. Gallai **gymryd** 40 mlynedd i mesothelioma ddod i'r amlwg. Yn gyffredinol, mae asbestosis yn **cymryd** rhwng 15 ac 20 mlynedd i ymddangos mewn pelydr x ar y frest. Y symptomau mwyaf cyffredinol ar gyfer afiechyd yr ysgyfaint sy'n **gysylltiedig ag asbestos** yw diffyg anadl a pheswch. Gall y symptomau fod yn ysgafn neu'n ddifrifol, gan ddibynnu ar raddfa'r creithio. (www.workerhealth.org/asbestosreldisease.html) A yw Cyngor Caerffili yn ymwybodol o unrhyw achosion sydd ar y gweill o hawliadau am iawndal yn gysylltiedig ag asbestos yn erbyn Cyngor Caerffili?

5. O ystyried yr honiad bod swyddfeydd Cyngor Pontllanfraith wedi cau o ganlyniad i gostau o gannoedd o filoedd o bunnau i'w gwneud yn ddiogel, a yw yswirwyr Caerffili wedi cael eu gwneud yn ymwybodol bod amgylcheddau gwaith a allai fod yn niweidiol wedi cael eu dioddef oherwydd pwysau ariannol?

6. A yw'n wir fod pobl fregus wedi cael eu hystyried yn bwysicach na gweithwyr Cyngor Caerffili ac a oedd eich gweithwyr cyflogedig wedi cael eu hysbysu am y risg posibl i'w hiechyd a'u hiechyd at y dyfodol?

**YMATEB GAN Y CYNGHORYDD C GORDON, AELOD CABINET DROS WASANAETHAU CORFFORAETHOL.**

**Cwestiwn 1 - Ateb**
Na.
Mae'r holl ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACM) yn y swyddfeydd wedi cael eu rheoli'n unol â rheoliadau priodol. O safbwynt Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos (ACM) o fewn yr adeilad, roedd amrywiaeth o ACM yn bresennol o Deils Llawr Asbestos i Fyrddau Inswleiddio Asbestos gyda chanran uchel o'r rhain wedi'u hamgáu o fewn seilwaith yr adeilad, ac nid yn agored i ddifrod o ganlyniad i ddefnydd arferol o'r adeilad. Nid yw'r deunyddiau hyn yn anarferol mewn nifer o adeiladau o'r un oedran o fewn yr Awdurdod a/neu ar draws y wlad a chawsant eu rheoli'n unol â Chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Cynllun Rheoli Asbestos Corfforaethol.

**Cwestiwn 2 - Ateb**
Na, am y rhesymau a nodwyd uchod. Ni fyddai rhaglen o'r fath yn canfod unrhyw broblemau nes i'r symptomau ddatblygu beth bynnag.

**Cwestiwn 3 - Ateb**
Roedd Swyddfeydd Pontllanfraith yn cynnwys deunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACM) ar sawl ffurf fel y nodir yng nghwestiwn 1. Cynhaliwyd yr Arolwg Rheoli Asbestos cychwynnol yn 2003 ac yna cafodd ei arolygu eto yn 2007, ac yna yn 2010. Cynhaliwyd Arolwg Atgyweirio, 2009, 2013, ac arolwg dymchwel yn 2016, monitro cyflwr ym mis Ionawr 2010, Ionawr 2011, Medi 2012, Rhagfyr 2012, Ionawr 2014 ac Ionawr 2015.

**Cwestiwn 4 - Ateb**
Mae'r Cyngor yn ymwybodol o 5 achos, ac nid oes yr un ohonynt yn ymwneud ag adeilad Pontllanfraith House.

**Cwestiwn 5 - Ateb**
Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau Arbennig ar 17 Mehefin 2014 yn ymwneud ag adeilad Pontllanfraith House. Nodwyd yn yr adroddiad hwn bod Pontllanfraith House yn un o'r opsiynau i'w gau gan ei fod yn cynrychioli atebolrwydd sylweddol i'r Cyngor. Gan fod yr adeilad wedi cael ei adeiladu ym 1977 a bod yr adeilad mewn cyflwr gwael ac angen gwaith adfer sylweddol i'r to, ffenestri, cladin allanol a system awyru/gwresogi, uwchraddio'r system drydanol a hefyd cyflenwad TG. Nid oedd yn cynnwys cyfeiriad bod yr adeilad yn anniogel o safbwynt Asbestos. Fodd bynnag, o ganlyniad i bresenoldeb ACM o fewn cyfansoddiad yr adeilad, byddai rheoli'r deunyddiau hynny'n ddiogel yn arwain at gost

ychwanegol ar gyfer y gwaith adfer/atgyweirio gofynnol. Nid er mwyn gwneud yr adeilad yn ddiogel o ran asbestos oedd y costau ychwanegol, ond yn hytrach er mwyn sicrhau bod gwaith atgyweirio'n cael ei gynnal mewn modd a fyddai'n sicrhau bod deunyddiau sy'n cynnwys asbestos yn cael eu rheoli'n unol â gofynion cyfreithiol ar gyfer diogelwch defnyddwyr yr adeilad ac unigolion sy'n gwneud y gwaith.

**Cwestiwn 6 - Ateb**
Yn unol ag arweiniad perthnasol a'r Cynllun Rheoli Asbestos Lleol, cafodd deunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACM) eu labelu ar adeg yr arolwg. Byddai gweithwyr cyflogedig hefyd wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o bresenoldeb ACM gan reolwyr. Gan fod y deunyddiau sy'n cynnwys asbestos (ACM) yn cael eu rheoli'n gywir ac yn ddigonol, byddai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn fodlon bod yr adeilad yn ddiogel i gael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac yn amgylchedd diogel i weithwyr cyflogedig Caerffili allu gweithio.

**(ii) ASBESTOS YNG NGHANOLFANNAU HAMDDEN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

At sylw'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau'r Gymdogaeth gan y Cynghorydd A. Farina-Childs.

I ofyn y canlynol i'r Aelodau Cabinet:

1. A oes unrhyw arolygon wedi cael eu cwblhau yn ymwneud â phresenoldeb asbestos yng Nghanolfannau Hamdden Caerffili?

2. Os felly, pryd gafodd yr arolygon eu cwblhau?

3. A oes modd i chi restru unrhyw Ganolfannau Hamdden lle mae asbestos wedi cael ei ganfod?

4. A oes unrhyw arolygon cyflwr wedi cael eu cwblhau ar Ganolfannau Hamdden Caerffili?

5. Os felly, pryd gafodd yr arolygon eu cwblhau?

A fyddai modd sicrhau bod y canfyddiadau hyn ar gael i'r Cyngor ynghyd ag unrhyw gostau angenrheidiol i ddod â phob Canolfan Hamdden i safon dderbyniol.

**YMATEB GAN Y CYNGHORYDD C. GORDON, AELOD CABINET DROS WASANAETHAU CORFFORAETHOL A'R CYNGHORYDD N. GEORGE, AELOD CABINET DROS WASANAETHAU'R GYMDOGAETH**

**Cwestiwn 1 - Ateb**
Oes

**Cwestiwn 2 - Ateb**
- Canolfan Hamdden Bedwas - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 10/8/17
- Canolfan Hamdden Caerffili - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 23/9/08
- Canolfan Hamdden Cefn Fforest - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 3/2/14
- Canolfan Hamdden Heolddu - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 22/9/08
- Canolfan Hamdden Newbridge - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 6/6/13
- Canolfan Hamdden Tredegar Newydd - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 7/5/15
- Canolfan Hamdden Pontllanfraith - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 7/1/10
- Canolfan Hamdden Rhisga - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 16/11/09
- Canolfan Hamdden Sue Noakes - Arolwg Rheoli Asbestos wedi'i gwblhau ar 1/12/09
- Adeiladwyd Canolfan Hamdden St Cenydd yn 2000 felly nid yw'n cynnwys deunyddiau sy'n cynnwys asbestos ac nid oes angen Arolwg Rheoli Asbestos

**Cwestiwn 3 - Ateb**
Mae'r Canolfannau Hamdden sydd ag asbestos yn bresennol yn cael eu nodi yng nghwestiwn 2 ac maen nhw'n cael eu rheoli'n unol â rheoliadau

**Cwestiwn 4 - Ateb**
Oes

**Cwestiwn 5 - Ateb**

- Canolfan Hamdden Bedwas - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 10/8/17
- Canolfan Hamdden Caerffili - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 28/2/18
- Canolfan Hamdden Cefn Fforest - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 26/1/18
- Canolfan Hamdden Heolddu - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 26/10/17
- Canolfan Hamdden Newbridge - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 9/10/17
- Canolfan Hamdden Tredegar Newydd - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 17/8/17
- Canolfan Hamdden Pontllanfraith - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 27/2/18
- Canolfan Hamdden Rhisga - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 18/11/17
- Canolfan Hamdden Sue Noakes - Monitro Cyflwr wedi'i gwblhau 6/3/18

Mae asbestos yn cael ei reoli i safon dderbyniol yn unol â'r rheoliadau ym mhob un o'r canolfannau hamdden.
Yn dilyn adolygiad o archwiliadau monitro cyflwr asbestos mewn Canolfannau Hamdden a adeiladwyd cyn 2000, nid oes Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos (ACM) i'w gweld mewn sefyllfa anniogel, felly nid oes angen unrhyw waith adfer i wneud yr ACM yn ddiogel.
Mae arolygon asbestos yn cael eu gwneud yn fewnol am ddim.

**(iii) CYLCHFAN PWLL-Y-PANT**

At sylw'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros yr Economi, Seilwaith a Chynaliadwyedd gan y Cynghorydd Kevin Etheridge

1. Gofyn i'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet pryd cafodd yr asesiad effaith traffig, yr astudiaeth dichonolrwydd a'r dadansoddiad cost mantais eu cwblhau ar Gylchfan Pwll-y-Pant a'i effaith a darparu crynodeb o'r canlyniadau?

2. Gofyn i'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet ddarparu costau manwl o ran y tendr gwreiddiol, pwy wnaeth y gwaith gwerthuso ynghyd â manylion y gweithdrefnau ymgynghori cyn dechrau ar y gwaith, a'r amserlenni gwreiddiol a phresennol sy'n ymwneud â'r gwaith?

**YMATEB GAN Y CYNGHORYDD SEAN MORGAN, DIRPRWY ARWEINYDD A'R AELOD CABINET DROS YR ECONOMI, SEILWAITH A CHYNALIADWYEDD**

**Cwestiwn 1 - Ateb**

- Mae Asesiad Effaith Traffig (TIA) yn cyd-fynd â chais cynllunio. Gan fod y gwaith hwn wedi cael ei wneud dan ddatblygiad a ganiateir, nid oedd angen asesiad TIA.
- Er mwyn dangos yr angen ar gyfer y cynllun a'r manteision cysylltiedig, roedd Llywodraeth Cymru'n gofyn am Arfarniad Opsiynau WelTag i gefnogi'r cais am gymorth grant. Roedd canlyniadau'r arfarniad fel a ganlyn:

  - Bydd dewis gwneud dim yn arwain at dagfeydd ychwanegol a chynnydd mewn amser teithio ar groesffordd sydd eisoes tu hwnt i'w gapasiti.

  - Mae Modelu Traffig yn dangos y byddai (Opsiwn 2D addasiad D) yn gallu lliniaru cynnydd traffig ychwanegol sydd wedi cael eu nodi yn yr LDP a fabwysiadwyd ar gyfer 2010 hyd at y flwyddyn 2033.

- Mae llif traffig ar hyn o bryd yn 37,000/dydd ar gyfartaledd ac mae cwblhau'r cynllun yn diogelu dyfodol y gylchfan. Mae'r model Saturn yn cynnwys llif traffic cyn ac ar ôl

cwblhau'r cynllun gydag amcanestyniadau hyd at 2033 sy'n cynnwys twf o 22% mewn llif traffig, a bydd y gylchfan yn gallu ymdopi â'r cynnydd hwn ar ôl cwblhau'r gwaith.

**Cwestiwn 2 - Ateb**

- Roedd y ffigwr tendr gwreiddiol a gyflwynwyd gan Walters UK ltd yn £3.175 miliwn; nid oes modd rhoi dadansoddiad o'r ffigwr gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif.
- Cwblhawyd proses PQQ trwy GwerthwchiGymru yn unol â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod ar gyfer Cytundebau ar 11 Mai 2017 (cyfeirnod WA Cyf:66401), yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau gyda diddordeb i wneud y gwaith. Cyflwynodd cyfanswm o naw sefydliad ymatebion PQQ a ddychwelwyd i'r Awdurdod trwy System E-Dendro Proactis Plaza ar ddydd Mawrth 25 Mai 2017.
- Cwblhawyd proses "llwyddo/methu" ac yna cawsant eu sgorio a'u gosod mewn trefn. Roedd tri o'r cyflwyniadau PQQ yn ymatebion aflwyddiannus yn dilyn asesiad yn erbyn cwestiynau a oedd yn cael eu sgorio, ac ni chawsant eu hystyried yn y broses dendro wrth symud ymlaen. Cafodd y chwe sefydliad gyda'r ranc uchaf eu rhoi ar restr fer ar gyfer cam nesaf y broses sef y Gwahoddiad i Dendro (ITT).
- Cyhoeddwyd y cyfarwyddyd i symud ymlaen gyda'r broses caffael gan Christina Harrhy, Cyfarwyddwr Cymunedau ar y pryd, yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Mehefin 2017 i barhau i sicrhau cytundeb ar gyfer darparu gwaith adfer priffordd ar gylchfan Pwllypant a chysylltiadau priffyrdd eraill cysylltiedig.
- Derbyniodd pob Contractwr a nodwyd uchod wahoddiad i dendro gan ddefnyddio Porth E-Dendro Proactis Plaza y Cyngor ar ddydd Iau 29 Mehefin 2017. Nodwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau oedd 12:00 hanner dydd ar ddydd Iau 27 Mehefin 2017, a bod angen i bob ymateb gael ei gyflwyno gan ddefnyddio Porth E-Dendro Proactis Plaza.
- Cafodd y ceisiadau tendr eu gwerthuso ar sail cost/ansawdd ac nid yn ôl pris yn unig. Pennwyd y tendr mwyaf buddiol yn economaidd gan ddefnyddio matrics sgorio cost/ansawdd, a chyhoeddwyd manylion y matrics i'r tendrwyr fel rhan o'r cyfarwyddiadau tendro.
- Cwblhawyd yr ymarfer asesiad ansawdd yn annibynnol gan swyddogion o Grŵp Prosiectau Peirianneg CBSC mewn ymgynghoriad â swyddogion o Adran Gaffael CBSC.
- Gofynnwyd a derbyniwyd cymeradwyaeth i ddyfarnu gan Christina Harrhy, Cyfarwyddwr Cymunedau ac Elizabeth Lucas, Pennaeth Caffael.
- Dyddiad dechrau'r cytundeb oedd 9 Hydref 2017 i gwblhau erbyn 10 Hydref 2018. Ar ôl dechrau'r gwaith, arweiniodd problemau'n ymwneud ag ymateb y cyhoedd i'r amhariad a'r oedi a achoswyd gan y gwaith at ail arfarnu dull darparu'r gwaith, gan wneud y defnydd gorau o ddwy lôn drwy ddefnyddio cyfyngiadau ar reolaeth traffig. Mae hyn wedi arwain at addasiad posibl i'r dyddiad cwblhau i 14 Tachwedd 2018.

  Cwblhawyd gwaith ymgynghori gyda'r gymuned fuses a chymunedau lleol cyn ac yn ystod y cynllun. O ganlyniad i ymgysylltiad gyda'r gymuned fuses, mae'r cynllun wedi cael ei adolygu i gynnwys barn y gymuned fusnes lleol.

  Yr amserlen wreiddiol i gwblhau'r gwaith oedd uchafswm o 12 mis a gyda'r addasiadau a wnaed yn ddiweddar i'r rhaglen, maen nhw'n parhau ar uchafswm o 12 mis. Y prif wahaniaeth, o ganlyniad i'r addasiadau i'r rhaglen yw lleihad sylweddol yn yr amser y mae traffic lôn sengl yn weithredol.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.19 p.m.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17eg Ebrill 2018, fe'u llofnodwyd gan y Maer.

________________________

MAER